

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 1af 2022 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (cadeirydd), Eifion Davies, Bethan Thomas, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Eilir Rowlands, Rita Jones, Dewi Pritchard, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo V. Evans a Gwenda Evans.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf:-

i) Cais am arwydd 'Dim parcio, man troi yn unig' yn ystâd Glan Tryweryn, Frongoch. Nid oedd y safle'n addas ar gyfer arwydd 'Dim Parcio' ond gynigwyd gosod arwydd 'No Through Road' a fyddai'n helpu gyda'r cerbydau HGV a oedd yn cael ei gyrru yno mewn camgymeriad. Cytunwyd i dderbyn y cynnig yma.

ii) Arwydd Cefnddwysarn ar y A494 – roedd yr arwydd wedi cael ei lanhau.

iii) Cyflwr yr A494 rhwng cyffordd Llandderfel a Hen Hafod, Llanfor – roedd cais am gyllid wedi cael ei wneud i ail wynebu'r ffordd ac yn y cyfamser roeddynt am lenwi'r tyllau dros dro.

iv) Gwrych angen ei dorri i wella gwelededd gyrwyr sy'n ymuno a'r A494 yng Nghefnddwysarn o gyffordd Cwm Main – roedd y gwrych wedi cael ei dorri erbyn hyn.

v) Gwrych Tŷ Nant, Cefnddwysarn - roedd yr Asiant wedi trafod gyda'r perchennog ac wedi gofyn iddynt ei dorri'n ôl.

vi) Gwteri ar yr A494 rhwng Bryn Dethol o Brŷn Awelon - nid oedd yr Asiant wedi gweld unrhyw broblem amlwg wrth archwilio'r safle ond mi fyddant yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn ymateb yn syth os bydd angen.

vii) Canghennau wedi gadael yn flêr rhwng y coed wrth ochr y llwybr troed rhwng Bala a Llanfor - roedd Warden y Parc Cenedlaethol wedi cysylltu yn nol yn cynnig ynai i dorri'r canghennau yn ddarnau man a chreu pentyrrau cynefin i fywyd gwyllt neu eu 'chipio'. Cytunwyd mai creu'r pentyrrau cynefin fyddai'r opsiwn orau.

b) Mynwentydd.

Yn dilyn ail archwiliad o'r cerrig beddi ym mynwent Llandderfel bu rhaid gosod rhai i lawr yn diogel.

Trafodwyd opsiynau ar gyfer eu hail osod yn saff ond mi fyddai angen olrhain y teuluoedd perthnasol yn gyntaf. Roedd gwaith ar giataiau mynwent Llandderfel wedi cael ei gwblhau. Cytunwyd i greu cynllun a cheisio am grantiau i wneud gwelliannau pellach i'r mynwentydd e.e. llwybrau, hysbysfwrdd, clirio glaswellt mynwent Llanfor i ddod a'r hen gerrig beddi i'r golwg.

c) Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25.

Trafodwyd syniadau ar gyfer datblygu'r cynllun. Cytunwyd i gydweithio gyda'r ysgolion a mudiadau lleol i blannu blodau a gosod bocsys adar a hefyd i ystyried beth a ellid ei gynnwys wrth greu'r cynllun gwelliannau'r mynwentydd.

ch) Sesiwn friffio Dŵr Cymru ar y gwelliannau i gronfa ddŵr Llyn Celyn.

Cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones o'r hyn a drafodwyd. Mi roedd cais cynllunio ar gyfer y gwaith wedi ei gyflwyno.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Fferm Wynt Gaerwen.

a) Darllenwyd e-byst a dderbyniwyd gan y trigolion lleol yn mynegi eu siom fod y Cyngor heb rannu gwybodaeth am y cynllun gyda hwy a'r effaith y byddai datblygiad fel hyn yn cael ar yr ardal. Yn anffodus er i RWE fod mewn cysylltiad â'r Cyngor roeddynt wedi crybwyll bob tro mae dyddiau cynnar oedd hi a bod dim manylion o'r cynllun ar gael. Er hynny, roedd wedi dod i'r amlwg fod gwybodaeth ar gael ar y we ers 2021. Mynegwyd siom y cynghorwyr eu bod wedi cael eu cam arwain gan RWE.

b) Roedd un o'r trigolion wedi gofyn a oedd lluniau wedi cael eu paratoi yn dangos maint y tyrbinau a sut y byddant yn edrych ar y safle. Roedd y clerc wedi codi hyn gyda RWE ond roeddynt wedi crybwyll eto fod hi'n rhy gynnar yn y cynllun i'r math yma o luniau gael ei gynhyrchu.

ch) Roedd y clerc wedi trafod gyda RWE ynglŷn â chael cyfarfod a fyddai'n agored i'r cyhoedd fynegi barn. Gan fod gan RWE fwriad i gynnal diwrnod agored yn Llandrillo cytunwyd i gynnal un yn Llandderfel hefyd ar yr 2il o Ragfyr rhwng 3y.p a 7 y.h. gyda chyfarfod cyhoeddus o dan ofal y Cyngor Cymuned rhwng 7-8y.h. Trafodwyd a chytunwyd ar agenda ar gyfer y cyfarfod gyda Maldwyn Jones yn ei gadeirio. Byddai cyfieithydd ar gael ar y noson. Roedd RWE wedi ein hysbysu y byddai'r wybodaeth a oedd yn cael ei arddangos yn y diwrnod agored ar gael ar y we o'r 15fed o Dachwedd. Dosbarthwyd poster i'r cynghorwyr arddangos yn y neuaddau ac unrhyw fan priodol arall.

d) Roedd y clerc wedi dosbarthu datganiad drwy e-bostio'r neuaddau a mudiadau lleol gan ofyn iddynt i'w rannu gyda'u cysylltiadau lleol. Roedd opsiwn iddynt hefyd i arwyddo fyny i gael diweddariadau drwy e-bost gan y Cyngor. Rhoddwyd cynnig hefyd i unrhyw un yrru eu sylwadau i'r Cyngor er mwyn i rain cael ei ystyried pan fydd y cynghorwyr yn trafod y cais terfynol.

b) Cyngor Gwynedd.

i) Gwaharddiadau traffig dros dro – amrywiol.

ii) Adran Gwarchod y Cyhoedd - Ffliw Adar a Cheidwaid Dofednod Lleol

c) Amrywiol.

i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.

ii) Comisiwn Ffiniau i Gymru - cynigion diwygiedig ar gyfer etholaethau seneddol newydd Cymru.

iii) GIG Cymru - Nodyn briffio, cynigion datblygu'r gwasanaeth.

iv) Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Etholiadau.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-

C22/0970/04/DT - Trosi rhan o ysgubor bresennol i ffurfio llety preswyl atodol i'r eiddo presennol. Cwm Cottage, Bethel.

vi) Materion Ariannol.

a) Archwiliad allanol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' ac yn y manau perthnasol.

b) Taliadau.

i) Cytunwyd i dalu:

a) Deiniol Davies (gwaith ym mynwent Frongoch)

b) Paul Addlington (giatiaau mynwent Llandderfel)

c) Ceisiadau ariannol.

Derbyniwyd ceisiadau gan Neuadd Bro Derfel (cyfraniad tuag at focs newydd i'r diffib) ac Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru Sir Gaerfyrddin 2023. Cytunwyd i drafod cais yr Urdd gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth. Gyda chais y Neuadd gofynnwyd i'r clerc i edrych yn gyntaf os oedd grantiau ar gael i brynu cabinet ac os ddim cynnig iddynt gael eu cyfraniad blynyddol rŵan yn hytrach na ym mis Mawrth.

vii) Materion lleol.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-

i) Gwrych ger y cae chwarae angen ei dorri'n ôl.

ii) Pryder am ddiogelwch y pentwr uchel o fynau mawr ar ochr yr B4401, Llanfor.

iii) Pont a Sgwâr Llandderfel yn llithrig iawn, gofynnwyd i'r clerc gysylltu eto a Chyngor Gwynedd i weld pryd yr oeddynt am wneud y gwaith arwisgo.

iv) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â gosod arwyddion gwell i rybuddio gyrwyr fod y ffordd o Fethel i Landderfel yn anaddas i lorïau HGV.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 6ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.